I S - D D E D D F W R I A E T H
C Y M R U

# LlC24-01

# DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

## Cyfarwyddydau Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru (Rhestr Weinyddol) (Cymru) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *5 Ionawr 2024* |
| *Yn dod i rym* | *5 Ionawr 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 12(1)(b) a (3) a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

### Enwi, dod i rym a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru (Rhestr Weinyddol) (Cymru) 2024.

(2) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 5 Ionawr 2024.

(3) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i Fyrddau Iechyd Lleol ac maent yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Cyfarwyddydau hyn—

ystyr "Bwrdd Iechyd Lleol" ("*Local Health Board*") yw Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd yn unol ag adran 11(2) o'r Ddeddf;

mae i "deddfwriaeth diogelu data" yr ystyr a roddir i "data protection legislation" yn adran 3 o Ddeddf Diogelu Data 2018(**2**) (termau sy'n ymwneud â phrosesu data personol);

(**1**) 2006 p. 42.
(**2**) 2018 (p. 12); diwygiwyd y diffiniad yn adran 3 gan O.S. 2019/419.

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr “GOCC 1” (“*WGOS 1*”) yw gwasanaethau offthalmig cyffredinol a ddarperir yn unol â Rheoliadau 2023;

ystyr “GOCC 2” (“*WGOS 2*”) yw gwasanaethau archwilio llygaid a ddarperir yn unol â Rheoliadau 2023;

ystyr “GOCC 3” (“*WGOS 3*”) yw asesiadau golwg gwan, cymorth ac arweiniad i bersonau y mae angen asesiadau o’r fath arnynt, a sicrhau bod cymhorthion golwg gwan yn cael eu darparu i gleientiaid ac ardystiad o amhariad ar y golwg mewn optometreg, a ddarperir yn unol â Chyfarwyddydau Pwyllgor y Gwasanaeth Golwg Gwan (Cymru) 2016(**1**);

ystyr “GOCC 4” (“*WGOS 4*”) yw bod uwch-ymarferwyr yn rheoli gwasanaethau monitro a mireinio atgyfeiriadau ym meysydd retina meddygol a glawcoma, a ddarperir yn unol â Chyfarwyddydau Pwyllgor y Gwasanaeth Archwiliadau Iechyd Llygaid (Cymru) 2016(**2**);

ystyr “GOCC 5” (“*WGOS 5*”) yw bod uwch-ymarferwyr yn rheoli ymgyflwyniadau iechyd acíwt a glawcoma, a ddarperir yn unol â Chyfarwyddydau Pwyllgor y Gwasanaeth Archwiliadau Iechyd Llygaid (Cymru) 2016;

ystyr “y gofrestr” (“*the register*”) yw—

(a) mewn perthynas ag ymarferydd meddygol offthalmig, cofrestr a gynhelir gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol o dan Ddeddf Meddygaeth 1983(**3**), neu

(b) mewn perthynas ag ymarferydd cymwysedig nad yw’n ymarferydd meddygol offthalmig, cofrestr a gynhelir gan y Cyngor Optegol Cyffredinol o dan Ddeddf Optegwyr 1989(**4**);

mae i “gwasanaethau archwilio llygaid” (“*eye examination services*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 3 o Reoliadau 2023;

ystyr “gwasanaethau offthalmig” (“*ophthalmic services*”) yw unrhyw un neu bob un o GOCC 1, GOCC 2, GOCC 3, GOCC 4 neu GOCC 5;

mae i “gwasanaethau offthalmig cyffredinol” (“*general ophthalmic services*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 4 o Reoliadau 2023;

mae i “optegydd cyflenwi” (“*dispensing optician*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 2 o Reoliadau 2023;

---

(**1**) 2016 Rhif 11, fel y’u diwygiwyd gan LlC20-44, LlC21-11 (sydd bellach wedi dod i ben), LlC23-47 ac LlC24-02.

(**2**) 2016 Rhif 10, fel y’u diwygiwyd gan LlC20-44, LlC21-11 (sydd bellach wedi dod i ben), LlC23-47 ac LlC24-02.

(**3**) 1983 p. 54.

(**4**) 1989 p. 44.

mae i “optometrydd” (“*optometrist*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 2 o Reoliadau 2023;

ystyr “Pwyllgor Meddygol Lleol perthnasol” (“*relevant Local Medical Committee*”) yw’r pwyllgor a gydnabyddir gan y Bwrdd Iechyd Lleol o dan adran 54 o’r Ddeddf;

ystyr “Pwyllgor Optegol Lleol perthnasol” (“*relevant Local Optical Committee*”) yw’r pwyllgor a gydnabyddir gan y Bwrdd Iechyd Lleol o dan adran 78 o’r Ddeddf;

ystyr “Rheoliadau 2023” (“*the 2023 Regulations*”) yw Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023(**1**);

mae i “rhestr gyfunol” (“*combined list*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 10 o Reoliadau 2023;

ystyr “rhestr weinyddol” (“*administrative list*”) yw’r rhestr weinyddol a lunnir ac a gyhoeddir yn unol â chyfarwyddyd 3;

ystyr “rhif cofrestru proffesiynol” (“*professional registration number*”) yw’r rhif gyferbyn ag enw’r ymarferydd cymwysedig yn y gofrestr;

ystyr “ymarferydd cymwysedig” (“*qualified practitioner*”) yw—

(a) optometrydd;

(b) ymarferydd meddygol offthalmig;

(c) optegydd cyflenwi;

mae i “ymarferydd meddygol offthalmig” (“*ophthalmic medical practitioner*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 2 o Reoliadau 2023.

## Cyfarwyddydau i bob Bwrdd Iechyd Lleol

**3.**—(1) Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol lunio, ar gyfer ei ardal, restr weinyddol.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid i’r rhestr weinyddol gynnwys rhestr o’r ymarferwyr cymwysedig sy’n darparu neu’n cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau offthalmig a rhaid iddi gynnwys yr wybodaeth a ganlyn—

(a) enw llawn yr ymarferydd cymwysedig;

(b) rhif cofrestru proffesiynol yr ymarferydd cymwysedig;

(c) y dyddiad y cafodd yr ymarferydd cymwysedig ei gofrestru gyntaf yn y gofrestr;

(d) y dyddiad y cafodd enw’r ymarferydd cymwysedig ei gynnwys gyntaf yn y rhestr weinyddol;

(**1**) O.S. 2023/1053 (Cy. 179).

(e) y gwasanaethau offthalmig y mae'r ymarferydd cymwysedig yn eu darparu neu'n cynorthwyo i'w darparu.

(3) Nid yw'n ofynnol i Fwrdd Iechyd Lleol gynnwys mewn rhestr weinyddol wybodaeth am ymarferwyr cymwysedig sydd eisoes wedi eu cynnwys mewn rhestr gyfunol a lunnir ac a gyhoeddir gan y Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw o dan reoliadau 10(1) ac 11(1) o Reoliadau 2023.

(4) Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol gyhoeddi ei restr weinyddol a rhoi copi ohoni ar gael i edrych arno—

(a) yn ei swyddfeydd, a

(b) mewn unrhyw fan arall yn ei ardal y mae'n ystyried ei fod yn briodol.

(5) Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol—

(a) anfon copi o'i restr weinyddol i'r Pwyllgor Meddygol Lleol perthnasol a'r Pwyllgor Optegol Lleol perthnasol, ac

(b) fesul ysbaid o ddim mwy na 3 mis, hysbysu pob un ohonynt am unrhyw newid a wneir yn y rhestr honno.

**Diogelu Data**

**4.** Nid oes dim yn y Cyfarwyddiadau hyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i Fwrdd Iechyd Lleol wneud unrhyw beth yn groes i ddeddfwriaeth diogelu data.



Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Gofal Sylfaenol, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad *5 Ionawr 2024*